# Polisi Gwrth-fwlio

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob un o'n perthnasoedd.

**TREFNIADAU AR GYFER DELIO Â BWLIO**

Ysgrifennir y polisi hwn yn unol â dogfen arweiniol Gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru, 2003.

**Diffiniad**

Gellir disgrifio bwlio fel 'gweithred fwriadol a wneir i beri gofid er mwyn rhoi ymdeimlad o bŵer, statws neu er boddhad arall i'r bwli. Gall bwlio amrywio o anwybyddu, galw enwau, pryfocio, bygythiadau a chribddeiliaeth hyd at fygwth corfforol, ymosod ar bobl a/neu eu heiddo. Gall fod yn ddigwyddiad unigol brawychus heb ei ddatrys sy'n cymylu bywyd plentyn, neu'n gyfres o ddigwyddiadau o'r math.'

Mae staff, rhieni a phlant yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn gweithio gyda'i gilydd i greu amgylchedd dysgu hapus, gofalgar a diogel. Rydym yn ceisio barn staff, rhieni a disgyblion yn aml wrth adolygu a diwygio'r polisi hwn. Gall y dioddefwr/dioddefwyr, ei ffrind/eu ffrindiau, ei riant/eu rhieni neu bobl eraill â diddordeb ddwyn sylw unrhyw aelod o staff at fwlio.

Nid yw bwlio, boed yn eiriol, yn gorfforol neu'n anuniongyrchol, yn cael ei oddef. Cyfrifoldeb pawb yw ceisio atal digwyddiadau o fwlio ac ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau'n gyflym ac yn effeithiol.

**Nodau**

- Darparu amgylchedd ddiogel, gofalgar ar gyfer cymuned gyfan yr ysgol, yn enwedig y plant sydd yn ein gofal.
- Dysgu plant bod bwlio'n annerbyniol a bod unrhyw fwlio y rhoddir gwybod amdano'n cael ei drin yn ddifrifol, a'i gofnodi ac y gweithredir arno.
- Sicrhau'r plant y bydd staff yn gwrando arnynt a'i fod yn iawn dweud wrth berson am y bwlio.
- Gwrando ar rieni a rhoi gwybodaeth iddynt am y camau a gymerir mewn ymateb i gŵyn.
- Bydd ymchwiliad llawn yn dilyn unrhyw adroddiad am fwlio gyda chofnodion manwl yn cael eu cadw o ddigwyddiadau, adroddiadau a chwynion.
- Cymryd camau gweithredu priodol, gan gynnwys gwahardd mewn achosion o fwlio difrifol.
- Monitro achosion o fwlio yn ystod y flwyddyn ysgol gan yr holl athrawon.

**Strategaeth ar gyfer delio â bwlio**

Wrth ddelio â bwlio, rydym yn dilyn y canllawiau sylfaenol hyn:

- Peidiwch byth ag anwybyddu bwlio a ddrwgdybir.
- Peidiwch â gwneud rhagdybiaethau cyn pryd.
- Gwrandewch yn ofalus ar bob adroddiad - nid yw clywed sawl disgybl yn adrodd yr un fersiwn yn golygu eu bod yn dweud y gwir.

- Mabwysiadwch ymagwedd datrys problemau sy'n symud disgyblion yn eu blaenau o hunangyfiawnhad.
- Ewch ar drywydd achosion profedig i wirio nad yw'r bwlio wedi ailddechrau.
- Cadwch gofnodion manwl.
- Defnyddiwch Strategaethau Adfer Arferol

Mae strategaethau wedi'u cyflwyno yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen i leihau bwlio. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth o fwlio a'r Polisi Gwrth-fwlio, cynyddu dealltwriaeth ar gyfer dioddefwyr ac addysgu disgyblion sut i reoli perthnasoedd mewn ffordd adeiladol.

Dylai staff gymhwyso un neu fwy o'r strategaethau isod, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb canfyddedig y sefyllfa. Dylid pwysleisio ymagwedd ofalgar a gwrando bob amser.

Mewn ymateb i gŵyn am fwlio, dylid dilyn gweithdrefnau disgyblu Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen, gyda'r staff yn gwneud ymchwiliad llawn, yn cadw cofnodion manwl ac yn defnyddio cosbau yn ôl y galw.

Dylai'r pennaeth neu aelod o'r uwch-dîm reoli ddilyn y gweithdrefnau.

1. Trafodwch natur y bwlio gyda'r plentyn dan sylw am gryn amser, gan gofnodi'r holl ffeithiau. Bydd angen amynedd a dealltwriaeth wrth wneud hyn.
2. Nodwch y plant sy'n gysylltiedig â'r bwlio.
3. Holwch bob person gan ddefnyddio strategaethau Arfer Adferol.
4. Cytunwch ar y cosbau sy'n berthnasol i'r math o fwlio.
5. Os caiff yr honiad o fwlio'n ei wadu, dylid ymchwilio ymhellach iddo. Os oes digon o dystiolaeth bod bwlio wedi digwydd, defnyddiwch gosbau perthnasol.
6. Dylid cynnal trafodaethau ar wahân gyda rhieni'r bwli a'r dioddefwr.
7. Bydd cosbau ar gyfer y bwlio'n cynnwys:
   - atal y plentyn rhag gwneud gweithgareddau a ffefrir, er enghraifft, ymweliad ysgol
   - colli amser egwyl am gyfnod penodol o amser
   - gwahardd o'r ysgol yn ystod amserau cinio am gyfnod penodol o amser
   - gwahardd o'r ysgol am gyfnod penodol.
8. Dylid darparu Rhaglen Cefnogaeth Fugeiliol i'r dioddefwr gyda mentor yn monitro ac yn cadw llygad ar bethau yn ystod amserau egwyl a chinio, a thrwy drafodaeth i sicrhau nad yw'r bwlio'n cael ei ailadrodd.
9. Dylid darparu Rhaglen Cefnogaeth Fugeiliol i'r bwli. Bydd hon yn cynnwys rhaglen Cefnogi Ymddygiad a chyfleoedd mewn amserau cylch neu grwpiau i blant drafod perthnasoedd a theimladau a'r effaith y gall bwlio ei gael ar unigolion. Bydd mentor yn cefnogi'r plentyn yn ystod y rhaglen hon.

Er mwyn lleihau achosion o fwlio mae holl staff Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn cadw llygad am arwyddion cynnar gofid mewn disgyblion. Rydym yn gwrando, yn credu ac yn gweithredu.

**Bwlio y tu allan i'r ysgol**
Nid yw Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn uniongyrchol gyfrifol am fwlio y tu allan i safle'r ysgol; fodd bynnag, lle bynnag y bo modd, byddwn yn cefnogi disgyblion sydd wedi cael eu bwlio, yn enwedig ar eu ffordd i'r ysgol neu oddi yno, gan ddisgyblion o ysgol arall neu gan bobl eraill.

Dylid cymryd y camau canlynol:

- Siarad â Phennaeth ysgol arall y mae ei disgyblion yn bwlio y tu allan i safle'r ysgol.
- Siarad â'r heddlu am broblemau ar y strydoedd lleol.
- Siarad â'r cwmni cludiant lleol, os oes bwlio'n digwydd ar fysus ysgol.
- Siarad â'r disgyblion am sut i osgoi neu drafod sefyllfaoedd bwlio.

**Seiberfwlio**
Nid ydym yn uniongyrchol gyfrifol am seiberfwlio y tu allan i safle'r ysgol; fodd bynnag, lle bynnag y bo modd, byddwn yn cefnogi disgyblion sydd wedi cael eu seiberfwlio ac yn annog plant i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel yn enwedig gwefannau cyfryngau cymdeithasol.

Dylid cymryd y camau canlynol:
- Addysgu'r holl ddisgyblion am faterion diogelwch ar y rhyngrwyd
- Hysbysu rhieni o faterion diogelwch ar y rhyngrwyd.
- Trafod gyda rhieni unrhyw bryderon a ddygwyd i sylw'r ysgol am gamddefnyddio'r rhyngrwyd.

**Bwlio ar sail Hil, Rhyw, Tueddfryd Rhywiol neu Anabledd**
Ni fydd Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn goddef bwlio yn erbyn unrhyw un oherwydd ei hil, ei ryw, ei dueddfryd rhywiol neu ei anabledd. Bydd yr ysgol yn cymryd camau ataliol o leihau pa mor debygol y mae achosion o fwlio o'r natur hon o ddigwydd. Caiff pob barn ystrydebol ei herio a bydd disgyblion yn dysgu i werthfawrogi gwahaniaethau mewn eraill a'u hystyried yn gadarnhaol, boed y rheini'n wahaniaethau hil, rhyw, gallu neu anabledd.

**Bwlio/Aflonyddu Hiliol**
Ni chaiff bwlio hiliol ei oddef yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen, a chaiff ei drin yn ddifrifol.

Cofnodir digwyddiadau mewn llyfr digwyddiadau ar wahân i ffurflenni ALl Abertawe. Mae dyletswydd ar Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen i ddatblygu dealltwriaeth plant o

faterion amrywiaeth ethnig ac archwilio goddefgarwch hiliol mewn gwersi ABCh a dinasyddiaeth ac mewn gwersi Addysg Grefyddol.
Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn gwarantu cyfrinachedd a chefnogaeth i'r rhai sy'n cael eu bwlio. Adroddir am ddigwyddiadau o fwlio i'r Corff Llywodraethu a'r ALl yn ôl y galw.

**Tueddfryd Rhywiol**
Mae strategaethau i ymdrin â bwlio o'r fath yn cynnwys:

- cofnodi digwyddiadau mewn llyfr digwyddiadau ar wahân
- ymwybyddiaeth gan staff y gall bwlio homoffobig ddigwydd
- herio iaith homoffobig ac archwilio dealltwriaeth disgyblion - efallai na fyddant yn deall yr effaith
- gwarantu cyfrinachedd a chefnogaeth i'r rhai sy'n cael eu bwlio
- rhoi gweithdrefnau disgyblu ar waith os yw'r bwlio'n cyfiawnhau hynny.

**Anghenion neu Anableddau Addysgol Arbennig**
Efallai na fydd plant ag anghenion neu anableddau addysgol arbennig yn gallu mynegi profiadau ar lafar mor rhwydd â phlant eraill. Fodd bynnag, maent yn aml mewn mwy o berygl o gael eu bwlio, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ac fel arfer oherwydd eu hanabledd penodol.

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn sicrhau nad yw ymddygiad staff yn sbarduno bwlio'n anfwriadol. Dylent osgoi tynnu sylw gormodol at blant ADY o'u cymharu ag eraill, ac ni ddylent wneud sylwadau am bryd a gwedd neu gymeriad canfyddedig e.e. ni ddylid dweud bod bechgyn sy'n chwarae pêl-droed yn wael yn chwarae fel merched.

Rydym yn ceisio sicrhau bod gwersi a gweithgareddau'r ystafell ddosbarth yn sensitif i anghenion plant o'r fath. Rydym yn addysgu pendantrwydd a sgiliau cymdeithasol eraill ac addysgu dioddefwyr i ddweud 'Na' neu gael help. Penodir mentor/ffrind a enwir fel y gall y disgybl ddweud pethau'n gyfrinachol wrtho.

Os yw'r bwlio'n ddifrifol, mae Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yn cynnal ymchwiliad llawn, gan gynnwys trafodaeth lawn gyda thystion, yn cofnodi digwyddiadau yn y llyfr digwyddiadau ac yn cysylltu â rhieni. Rhoddir gweithdrefnau disgyblu ar waith.

Gall bwlio effeithio hefyd ar blant â chyrhaeddiad uwch a'r rhai mwy galluog a thalentog. Dylai athrawon drin hyn yr un mor ddifrifol ag unrhyw fath arall o fwlio.

Fel rhan o'n nod trosgynnol i ddisgyblion gyflawni eu potensial ar draws y cwricwlwm, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod yr holl blant yn cael y gefnogaeth angenrheidiol yn y maes hwn, yn unol â'n cynllun cyfle cyfartal ac anabledd.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.

Medi 2023 :

M Kevin Davies (Pennaeth)

Yr Athro G Ffrancon (Cadeirydd Llywodraethwyr)